



Hunan-Ynysu a Phrofi

Mae'r gofynion ynghylch hunan-ynysu a phrofion yn berthnasol o 31 Rhagfyr 2021.

	Angen Prawf Cychwynnol	Hunanynysu	Prawf Dyddiol
Achosion Cyfeirio (pob oedran/categori *) (* Nodwch - mae canllawiau penodol i'w cael ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol – mae'r canllawiau yn dal i fynnu cymryd 10 diwrnod i ffwrdd o'r gwaith)	Dim symptomau salwch anadlol = prawf llif unffordd (LFD) Unrhyw symptomau salwch anadlol = prawf PCR	7 diwrnod	LFD ar ddiwrnod 6 a 7 i fod yn negatiff cyn rhyddhau ar Ddiwrnod 8 * #
Cysylltiadau - Plant wedi'u brechu a phlant 5-17 oed (gan gynnwys cysylltiadau ar yr aelwyd)	Ddim yn berthnasol	Dim angen hunan-ynysu	Prawf LFD dyddiol am 7 diwrnod
Cysylltiadau - Heb eu brechu (pob swydd a thros 5 oed)	Ddim yn berthnasol	10 diwrnod	Prawf LFD ar Ddiwrnod 2 a Diwrnod 8 yw'r argymhelliad
Cysylltiadau - Dan 5 oed	Dim angen prawf hyd yn oed os oes symptomau oni bai bod cyngor meddygol neu fod hynny er budd gorau'r plentyn	Dim angen hunan-ynysu	Dim angen
Cysylltiadau - Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi'u brechu	Prawf PCR negatiff cyn mynd i'r gwaith ar y diwrnod cyntaf	Dim angen hunan-ynysu	Prawf LFD dyddiol am 10 diwrnod

- 10 diwrnod yw'r amser ynysu mwyaf sydd ei angen. Felly, hyd yn oed os yw prawf LFT yn dangos yn bositif ar Ddiwrnod 10, cewch chi ddychwelyd i'r gwaith ar ddiwrnod 11, a does dim rhaid i chi gael dau brawf sy'n amlwg yn negatiff.

Mae brechu'n llawn yn y cyd-destun yma'n golygu:

- rydych chi wedi cael brechlyn COVID-19 a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn y DU
- mae o leiaf 14 diwrnod wedi mynd heibio ers i chi dderbyn y dosau argymelledig o'r brechlyn

Does dim angen i chi fod wedi derbyn brechlyn atgyfnerthu i gael eich ystyried yn berson sydd wedi'i frechu'n llawn.

Mae'r rheolau ynghylch hunan-ardystio absenoldeb salwch hefyd wedi newid o 10 Rhagfyr 2021 a bydd yr wybodaeth berthnasol i'w gweld trwy'r ddolen isod. Sylwch mai newid dros dro yw hwn a dim ond tan 26 Ionawr 2022 bydd hyn yn berthnasol (pryd y caiff ei adolygu). Bydden ni hefyd yn ychwanegu, mewn perthynas â theithio dramor, nad yw canllawiau ACAS ynghylch cyflog yn dilyn dychwelyd o dramor wedi newid. Mae darpariaethau penodol i'w cymhwyso o hyd mewn perthynas ag absenoldebau oherwydd Covid-19 lle gall cyflogwr ofyn am yr wybodaeth bellach ar ôl 7 diwrnod o absenoldeb oherwydd salwch.

GWEITHIO GARTREF, MYND I SWYDDFEYDD, A PHROTOCOLAU COVID MEWN CERBYDAU

O 20 Rhagfyr 2021, newidiodd y gyfraith yng Nghymru y dylai staff weithio gartref, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Serch hynny, bydd angen o hyd ar rai aelodau o staff i fynd i weithle ar gyfer materion hanfodol sy'n gysylltiedig â'r gwaith (gallai hyn gynnwys cael eu hadleoli'n rhesymol i gefnogi eu cydweithwyr yn eu hadrannau priodol) neu ar gyfer eu hanghenion lles. Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n mynd i Swyddfeydd y Cyngor barhau i ddilyn protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar gyfer mynd i swyddfeydd, sy'n cynnwys hylendid dwylo da, gwisgo mwgwd (ac eithrio pan mae rhywun yn eistedd wrth ddesg sydd â digon o bellter oddi wrth yr un nesaf) ac ymbellhau cymdeithasol (lle mae hi'n ymarferol i wneud hynny). O ran holl gerbydau'r Cyngor, rhaid i staff wisgo mwgwd wyneb os oes mwy nag un person mewn cerbyd.

DS - does dim rhaid gwisgo masgiau os ydych chi wedi'ch eithrio yn feddygol.

TEITHIO DRAMOR

Bydd cydweithwyr hefyd yn gwybod bod Llywodraeth Cymru (LIC) yn argymhell peidio â theithio dramor ar hyn o bryd. Serch hynny, pe bai rhywun yn penderfynu teithio dramor, felly byddai'r pwyntiau isod yn rhoi sylw i'r gofynion presennol ar deithwyr sy'n dychwelyd i Gymru o wledydd dramor. Mae hyn hefyd yn ategu negeseuon blaenorol yr Uwch Arweinwyr mewn perthynas â theithio dramor.

1. Ar hyn o bryd does dim gwledydd wedi'u nodi ar y rhestr goch at ddibenion teithio rhyngwladol.
2. **O 4:00am ar 7 Ionawr 2022, dyma'r rheolau ar gyfer teithwyr WEDI'U BRECHU sy'n dychwelyd i'r DU o Dramor:**
 - i. **Dim angen hunan-ynysu ar ôl cyrraedd**
 - ii. **Rhaid cymryd prawf LFD ar ddiwrnod 2 ar ôl cyrraedd (wedi'i dderbyn fel prawf o 4:00am ar y 9 Ionawr 2022).**
 - iii. **Os yw'r prawf yn bositif, yna hunan-ynysu a chymryd prawf PCR. Hyd nes y daw canlyniad y prawf yn ôl**, bydd y diwrnodau ychwanegol hyn ar ffurf gwyliau blynyddol ychwanegol neu wyliau di-dâl a fydd dim hawl gweithredu unrhyw drefniadau eraill
 - iv. **Os yw'r prawf PCR yn bositif rhaid i chi hunan-ynysu am y cyfnod gofynnol (10 diwrnod ar hyn o bryd). Bydd y cyfnod hunan-ynysu sy'n weddill** unwaith eto yn golygu cymryd gwyliau blynyddol ychwanegol neu wyliau di-dâl a fydd dim hawl gweithredu unrhyw drefniadau eraill.

DS - mewn perthynas â phwyntiau (ii) i (vi) uchod, os ydych chi wedi cael dau frechlyn ac yn penderfynu peidio â chael y prawf LFD gofynnol cyn pen 2 ddiwrnod ar ôl dychwelyd o dramor, yna bydd rhaid i chi barchu'r cyfnod hunan-ynysu (10 diwrnod i gyd). Bydd y cyfnod hunan-ynysu yn golygu cymryd gwyliau blynyddol ychwanegol neu wyliau di-dâl a fydd dim hawl gweithredu unrhyw drefniadau eraill.

3. **Mae'r rheolau ar gyfer teithwyr HEB EU BRECHU sy'n dychwelyd i'r DU ac i Gymru yn aros fel y maen nhw, sef:**

- i. **Rhaid llenwi Ffurflen Lleoli Teithwyr**
- ii. **Rhaid cael prawf negatif** cyn pen 48 awr o deithio yn ôl i'r DU
- iii. **Rhaid cael prawf PCR preifat** cyn pen 2 ddiwrnod ar ôl cyrraedd y DU
- iv. **Rhaid i chi barhau i hunan-ynysu gartref am y cyfnod gofynnol (cyfanswm o 10 diwrnod)**, beth bynnag fo'r canlyniad. Bydd rhaid defnyddio gwyliau blynyddol ychwanegol neu wyliau di-dâl ar gyfer y cyfnod hunan-ynysu yma, a fydd dim hawl gweithredu unrhyw drefniadau eraill.

Yn olaf, rydym ni wedi cael rhai cwestiynau ynghylch gwyliau syddw wedi'u trefnu ymlaen llaw dros gyfnod diweddar y Nadolig ac unrhyw gyfnodau hunan-ynysu gan staff. Yn unol â phenderfyniadau blaenorol ar y mater hwn, bydden ni'n cyngori bod unrhyw wyliau a drefnwyd ymlaen llaw yn sefyll, a fyddan nhw ddim yn cael eu rhoi yn ôl fel diwrnodau ychwanegol o wyliau.